# Polisi Cyffuriau ac Alcohol: Dull Lleihau Niwed

Grŵp Llywio Lleihau Niwed Prifysgol Aberystwyth

**Aseswyd yr Effaith:**

**Arweinir gan:** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Gorffennaf 2024



Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

Mehefin 2024

# Cynnwys

Trosolwg o'r Polisi ........ 3
Ffocws y Polisi: ........ 4
Deall realiti defnyddio sylweddau ym mywyd y Brifysgol: ........ 5
Diffiniadau: ........ 5
Dull Prifysgol Aberystwyth o weithredu er mwyn lleihau niwed: ........ 6
Cyfeirio a Chymorth: ........ 7
Rhoi Gwybod am Bryderon: ........ 8
Risgiau iechyd a diogelwch: ........ 9
Cyfeirnodau: ........ 9



Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

Mehefin 2024

# Prifysgol Aberystwyth, Polisi i Fyfyrwyr - Cyffuriau gan gynnwys Alcohol:

## Trosolwg o'r Polisi

Mae Grŵp Strategaeth Defnyddio Cyffuriau ac Alcohol Prifysgol Aberystwyth, mewn cydweithrediad ag Undeb Aber ac wedi'i arwain gan safonau SOSUK, wedi datblygu'r polisi hwn i amlinellu'r disgwyliadau a'r cyfrifoldebau o ran defnydd myfyrwyr o alcohol a sylweddau. Mae'r polisi hwn, a grëwyd mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (GCAD) a Choices, yn adlewyrchu'r dulliau mwyaf cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gefnogi ein myfyrwyr.

Nid yw Prifysgol Aberystwyth yn cymeradwyo nac yn condemnio defnyddio cyffuriau, ond rydym yn blaenoriaethu diogelwch a lles ein cymuned drwy fabwysiadu dull lleihau niwed. Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael yn benodol â defnyddio alcohol, sylweddau rheoledig o dan Ddeddf Cyffuriau 1971 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/38/contents>[1], sylweddau a reoleiddir gan Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/2/contents/enacted>[2], a defnyddio a meddu ar feddyginiaethau presgripsiwn heb awdurdod o dan Ddeddf Meddyginiaethau 1968 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/67/contents>[3].

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd diogel a chefnogol i'r holl fyfyrwyr. Mewn cydweithrediad ag Undeb Aber, GCAD a Choices, rydym wedi datblygu dull lleihau niwed ar gyfer cyffuriau, gan gynnwys

alcohol, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â defnyddio sylweddau gyda thosturi a chymorth ymarferol. Ein nod yw lleihau effeithiau iechyd, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau drwy ddarparu mynediad hawdd at adnoddau wedi'u teilwra, grymuso myfyrwyr, a meithrin cymuned wybodus ac agored.

Er mwyn hyrwyddo'r ymrwymiad hwn, mae Prifysgol Aberystwyth ac Undeb Aber yn cymryd rhan mewn cynllun achredu cenedlaethol i adolygu a gwella ein dull lleihau niwed yn barhaus. Mae'r broses barhaus hon yn cynnwys ymgynghori'n agos â myfyrwyr a rhanddeiliaid amrywiol, gan sicrhau bod ein strategaeth yn parhau i fod yn ymatebol, yn effeithiol ac yn cyd-fynd ag arferion gorau.

Gan gyd-fynd â Gwerthoedd craidd y Brifysgol <https://www.aber.ac.uk/ên/about-us/strategic-plan/>[4] - sef trawsnewidiol, creadigol, cynhwysol, uchelgeisiol, a chydweithrediadol - mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod pob myfyriwr yn ffynnu mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

## Ffocws y Polisi:

**Ymrwymiad Lleihau Niwed**: Blaenoriaethu diogelwch a lles drwy ddull lleihau niwed, gan ganolbwyntio ar leihau effeithiau iechyd, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau.

**Ymdrech Gydweithredol**: Datblygwyd gyda mewnbwn gan Undeb Aber, GCAD a Choices, ac Arweinydd Lleihau Niwed Aberystwyth i sicrhau polisi cyflawn ac effeithiol.

**Cymorth Cynhwysfawr:** Cynnig mynediad hawdd at wasanaethau ar y campws a phartneriaethau allanol, gan ddarparu cymorth wedi'i deilwra i fyfyrwyr sy'n delio â defnyddio sylweddau.

**Parch a chyfrifoldeb**: Hyrwyddo amgylchedd diogel, cynhwysol lle mae pob aelod o'r gymuned yn ymwybodol o sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar eraill.

**Deall realiti defnyddio sylweddau ym mywyd y Brifysgol**

Rydym yn cydnabod y gall defnyddio cyffuriau ac alcohol gael effaith ddifrifol ar iechyd, perfformiad academaidd a pherthnasoedd. Er nad ydym yn cymeradwyo eu defnyddio, rydym wedi ymrwymo i helpu ein myfyrwyr i lywio eu profiad yn y brifysgol mewn ffordd ddiogel a chadarnhaol. I lawer o fyfyrwyr, mae'n bosibl mai yn y brifysgol y byddant yn dod i gysylltiad â chyffuriau anghyfreithlon am y tro cyntaf, ac rydym wedi ymrwymo i gynnig y gefnogaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall myfyrwyr gael eu heffeithio nid yn unig gan eu defnydd eu hunain o gyffuriau ac alcohol, ond hefyd trwy gysylltiadau â ffrindiau neu aelodau o'r teulu sy'n eu defnyddio. Gall y profiadau hyn fod yn gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a heriau personol eraill. Wrth i ni weithio tuag at ddod yn brifysgol sy'n ystyriol o drawma, rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein cymuned gydag empathi a dealltwriaeth drwy'r materion cymhleth hyn.

## Diffiniadau

Yn y Polisi hwn, rydym yn diffinio termau allweddol sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau i sicrhau bod pawb yn eu deall yn yr un modd:

**Lleihau Niwed:** Nod lleihau niwed yw lleihau'r effeithiau iechyd, cymdeithasol a chyfreithiol negyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau a/neu alcohol. Mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo newid cadarnhaol a gweithio gydag unigolion heb farnu.

Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

**Defnyddio sylweddau:** Mae hyn yn cyfeirio at y defnydd niweidiol o sylweddau, gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon a sylweddau cyfreithiol megis alcohol, meddyginiaethau presgripsiwn, caffein, nicotin a sylweddau anweddol (e.e., petrol, glud, paent). Mae defnyddio sylweddau yn digwydd pan fydd unigolyn yn cymryd y sylweddau hyn mewn modd sy'n effeithio'n andwyol ar eu hiechyd, eu perfformiad, eu hymddygiad, neu eu diogelwch eu hunain a/neu ddiogelwch eraill. Gall hyn fod yn ysbeidiol neu'n barhaus ei natur.

**Cyffur a Reolir:** Mae'r categori hwn yn cynnwys yr holl sylweddau a restrir yn y Deddfau Cyffuriau a Reolir (Atodiad I) neu Reoliadau sy'n gymwys o dan y gyfraith.

## Dull Prifysgol Aberystwyth o weithredu er mwyn lleihau niwed:

Mae dull Prifysgol Aberystwyth o weithredu er mwyn lleihau niwed yn seiliedig ar egwyddorion Cyfrifoldeb a Pharch, Gwybodaeth a Chefnogaeth.

**Cyfrifoldeb a Pharch** - Mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw defnyddio sylweddau yn norm cymdeithasol na diwylliannol i nifer o bobl a'i fod yn eu dychryn, eu dieithrio a'u haflonyddu. Ar ben hyn, mae'n bosib y bydd pobl sydd wedi cael profiad o ddefnydd problemus yn y gorffennol eisiau osgoi dod i gysylltiad â chyffuriau gan gynnwys alcohol er eu diogelwch eu hunain.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i sicrhau **amgylchedd diogel a chynhwysol** sy'n meithrin parch tuag at wahaniaethau ac ystyriaeth i eraill.

Gofynna'r Brifysgol i'r rhai yn ein cymuned fod yn ymwybodol o'r ffordd y gallai eraill brofi eu hymddygiad a sut y gall effeithio arnynt. Gofynna'r Brifysgol hefyd i'r rhai sydd yn ein cymuned ystyried effaith pwysau gan gyfoedion, y ffordd y gall unigolion gyfrannu at hynny, ac anelu at gael effaith gadarnhaol ar eraill.

**Lle i ddysgu yw Prifysgol Aberystwyth - ni fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n effeithio'n negyddol ar les a gallu eraill i ddysgu, yn cael ei ddioddef.**

Ymdrinnir â digwyddiadau lle canfuwyd bod myfyrwyr yn meddu ar a/neu'n delio â chyffuriau fesul achos.

**Gwybodaeth** - Er mwyn cynnal dyletswydd gofal, nod Prifysgol Aberystwyth yw rhoi'r hyder i fyfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w hannog i wneud penderfyniadau gwybodus a chyfrifol. Mae'r Brifysgol yn gweithio i gefnogi datblygu sgiliau hunanhyder a phendantrwydd, er mwyn i unigolion ymwrthod â phwysau gan gyfoedion a phwysau eraill.

## Cyfeirio a Chymorth

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i addysgu a chynghori ar ddefnyddio cyffuriau ac alcohol, gan sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn wybodus a bod ganddynt fynediad at gymorth priodol. Ar gyfer myfyrwyr sydd angen cymorth gyda defnyddio sylweddau, rydym yn darparu nifer o lwybrau:

- **Hunangyfeirio:** Gall myfyrwyr ddefnyddio Ffurflen hunangyfeirio GCAD <https://www.itsinourblood.co.uk/refer>[5] i gael mynediad at wasanaethau cymorth.


Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

- **Gwasanaethau Cymorth:** Os oes angen help ar fyfyriwr gyda phroblemau'n ymwneud â defnyddio sylweddau, mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i gynnig cymorth uniongyrchol neu eu cyfeirio at adnoddau allanol addas. Mae ein Gwasanaeth Lles Myfyrwyr ar gael trwy hunangyfeirio <https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Dgl71Fo_oEyE0J-J0mnxdXNIgjjPK35NmRX8NBYMINZURDUxUlY0UUVWSzcyWUxPNzFNM1dWNk1NNSQIQCN0PWcu>[6] neu drwy ffonio 01970 621761.

  Rydym yn darparu cymorth tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnal cyfrinachedd. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae risg uniongyrchol a difrifol i ddiogelwch unigolyn neu ddiogelwch eraill, efallai y bydd angen torri cyfrinachedd yn unol â'r Polisi Diogelu <https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/humanresources/Safeguarding-Policy-_-V220124.pdf>[7]. Efallai y bydd rhai sefyllfaoedd hefyd yn gofyn am gyfeirio at y Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr <https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/handbook/regulations/student-rules-regs/>[8].

## Rhoi Gwybod am Bryderon:

- **Pryderon Cyffredinol:** Gall unigolion roi gwybod am bryderon drwy ein system adrodd i fyfyrwyr Adrodd a Chymorth - cliciwch ar 'Rhoi Gwybod am Bryderon Ynglŷn â Lles Myfyrwyr' <https://reportandsupport.aber.ac.uk/>[9].

- **Risgiau Difrifol:** Os oes risg difrifol i eraill, cysylltwch â'r Tîm Diogelwch, ffoniwch 101, neu ffoniwch 999 ar unwaith.

## Risgiau iechyd a diogelwch

Mae Prifysgol Aberystwyth yn annog pob aelod o'i chymuned i gymryd cyfrifoldeb unigol am eu diogelwch eu hunain ac i gyfrannu'n weithredol at ddiogelwch pobl eraill. Gellir gwneud hyn drwy herio neu ymyrryd pan fyddwn yn gweld ymddygiad annerbyniol neu beryglus. Mae cydnabod pan fo rhywun mewn perygl a gwybod sut i ymyrryd yn ddiogel neu geisio cymorth proffesiynol (e.e., ffonio 999) yn hanfodol.

## Cyfeirnodau


1. *Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971* (1979) *Legislation.gov.uk*. Ar gael ar: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/38/contents (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).

2. *Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016* (2016) *Legislation.gov.uk*. Ar gael ar: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/2/contents/enacted (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).

3. *Deddf Meddyginiaethau 1968* (1979) *Legislation.gov.uk*. Ar gael ar: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/67/contents (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).

4. Prifysgol Aberystwyth (2023), *Cynllun Strategol a Chenhadaeth:* Prifysgol Aberystwyth. Ar gael ar: https://www.aber.ac.uk/en/about-us/strategic-plan/#:~:text=Our%20Values%20Transformational%20Creative%20and%20innovative,Inclusive%20Ambitious%20Collaborative%20Our%20Core%20Objectives (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).





Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

5. Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (2023) *2023 Digital Self/Professional/Concerned Other Referral Form*, *It’s In Our Blood*. Ar gael ar: https://www.itsinourblood.co.uk/refer (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).

6. Prifysgol Aberystwyth (2023) *Ffurflen Gofrestru'r Gwasanaeth Lles*, *Microsoft forms*. Ar gael ar: https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Dgl71Fo_oEyE0J-J0mnxdXNIgjjPK35NmRX8NBYMINZURDUxUlY0UUVWSzcyWUxPNzFNM1dWNk1NNSQlQCN0PWcu (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).

7. Prifysgol Aberystwyth (2023) *Polisi Diogelu*, *Gwefan Prifysgol Aberystwyth*. Ar gael ar: https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Dgl71Fo_oEyE0J-J0mnxdXNIgjjPK35NmRX8NBYMINZURDUxUlY0UUVWSzcyWUxPNzFNM1dWNk1NNSQlQCN0PWcu (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).

8. Prifysgol Aberystwyth (2023) *Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr*, *Rheolau a rheoliadau i fyfyrwyr : Cofrestrfa Academaidd, Prifysgol Aberystwyth* Ar gael ar: https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/handbook/regulations/student-rules-regs/ (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).

9. Prifysgol Aberystwyth (2023) *Adrodd a Chymorth*, *Adrodd a Chymorth - Prifysgol Aberystwyth*. Ar gael ar: https://reportandsupport.aber.ac.uk/ (Defnyddiwyd: 13 Awst 2024).



Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

| | |
|---|---|
| **Teitl y Polisi** | Polisi lleihau niwed |
| **Cymeradwywyd y data** | |
| **Corff Cymeradwyo** | Bwrdd Academaidd Pwyllgor Profiad y Myfyrwyr |
| **Dyddiad yr adolygiad blaenorol** | |
| **Dyddiad ei adolygu nesaf** | |
| **Polisïau / gweithdrefnau / canllawiau cysylltiedig** | |
| **Dyddiad gweithredu** | |
| **Perchennog y polisi (teitl swydd)** | Pennaeth Lles Myfyrwyr |
| **Uned / Gwasanaeth** | Gwasanaethau i Fyfyrwyr |
| **E-bost cyswllt** | |

Rheoli Fersiynau:

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Rheswm dros newid** |
|---|---|---|
| *2?* | 1 Mehefin 2024 | Hygyrchedd ac Ailfformatio |
| *2.1* | 15 Mehefin 2024 | Ail ysgrifennwyd gan y Pennaeth Lles |



Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

Mehefin 2024

Polisi Cyffuriau ac Alcohol Aberystwyth

Mehefin 2024